# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Cadeirydd: Darren Millar AC

Dydd Mercher 14 Hydref 2015, 12:15
Ystafell Gynadledda 21 – Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Darren Millar AC | Cadeirydd, Aelod Cynulliad Gorllewin Clwyd |
| Mia Rees | Ysgrifennydd |
| Cyrnol Lance Patterson | Cyrnol L Patterson,  Dirprwy Gadlywydd, Brigâd 160 y Troedfilwyr a Phencadlys Cymru |
| Is-gyrnol Jim McLaren | Is-gyrnol Jim McLaren OBE RM, Pennaeth Staff, NRHQ (WWE) |
| Barbara McGregor | NRHQ (WWE) |
| Comodor Awyr Adrian Williams, Swyddog Awyr Cymru - y Llu Awyr Brenhinol | Y Llu Awyr Brenhinol, Cymru |
| Cyrnol N R Beard TD DL | Prif Weithredwr, Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru |
| Jo Dover | Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau a Hyfforddwr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Cymru a de-orllewin Lloegr, y Gwasanaeth Lles Amddiffyn Meddygol (DMWS) |
| Yr Athro F D Rose | Cydlynydd, Prifysgolion yn Cefnogi Personél sydd wedi'u Clwyfo, sydd wedi'u Hanafu ac sy'n Sâl (UNSWIS) |
| Mark Axler | Cyfarwyddwr MAON ac Arweinydd Prosiect Allgymorth Ffilm y Cyfamod Cymunedol |
| Lindsay Whittle AC | Aelod Cynulliad dros Ddwyrain De Cymru |
| Angela Burns AC | Aelod Cynulliad dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |

**1) Gair o groeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r grŵp i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd bawb o amgylch y bwrdd i gyflwyno eu hunain yn eu tro (gweler y rhestr o bawb a oedd yn bresennol uchod) a rhoddodd fanylion ynghylch yr ymddiheuriadau a gafwyd.

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

- David Melding AC
- Comodor Jamie Miller - Y Llynges Frenhinol
- Y Brigadydd Gamble - Y Fyddin
- Trevor Edwards, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Gwasanaeth Lles Amddiffyn Meddygol
- Chris Downward MC, Cadeirydd, Pwyllgor Cynghori a Phensiynau Cyn-filwyr Cymru, Cynrychiolydd Rhanbarthol ac Ymddiriedolwr, Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd yng Nghymru (gobeithio dod i'r cyfarfod nesaf)
- Dr. Neil J. Kitchiner, Prif Glinigydd ac Arweinydd Anrhydeddus Ymchwil i Iechyd Meddwl ymhlith Cyn-filwyr, GIG Cyn-filwyr Cymru

2) **Y wybodaeth ddiweddaraf o ran nodi blwyddyn ers trawsnewid y lluoedd i Frigâd Gosodadwy mewn Llu Addasol**
**-** Cyrnol L Patterson, Dirprwy Gadlywydd, Brigâd 160 y Troedfilwyr a Phencadlys Cymru

(Mae copi o'r cyflwyniad Powerpoint a ddefnyddiwyd ar gyfer yr eitem hon ar gael ar gais.)

Y prif bwyntiau:

- Daeth Brigâd 160 y Troedfilwyr yn osodadwy flwyddyn yn ôl.
  - Gyrrwyd y newid hwn gan yr Uwchgynhadledd NATO a gynhaliwyd yng Nghasnewydd.
- Swyddogaeth wreiddiol y Frigâd oedd gweithredu yn y DU. Erbyn hyn, mae ganddi swyddogaethau eraill:
  - Ymgysylltu â gwledydd tramor i adeiladu gallu a lleihau'r posibilrwydd o ymyrraeth yn y dyfodol.
  - Gweithrediadau wrth gefn mewn lleoliadau tramor, gan gynnwys ymladd rhyfeloedd.
- Mae meysydd blaenoriaeth y Frigâd yn cynnwys:
  - Darparu elfennau o'r lluoedd sy'n barod i ymgymryd â thasgau amrywiol, gan gynnwys dyletswyddau seremonïol a gweithrediadau mewn lleoliadau tramor ac yn y DU.
  - Cydnerthedd
  - Gweithredu at ddibenion amddiffyn mewn lleoliadau tramor.
- Mae'n bwysig bod Gweinyddiaeth yr Amddiffyn yn cymryd datganoli i ystyriaeth er mwyn sicrhau canlyniadau cyson ar gyfer teuluoedd y Gwasanaeth. Mae Pencadlys Cymru yn cael ei gynrychioli yn fforwm datganoli'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Dyma enghreifftiau o faterion sy'n cael eu trafod:
  - Y rhaglen flaenorol ar gyfer ehangu nifer y cadetiaid
  - Gwahaniaethau o ran y polisïau ar gyfer rhoi organau
  - Gwahaniaethau o ran sicrhau cydnerthedd

- Mae goruchwyliaeth y Frigâd cynnwys lluoedd wrth gefn a chadetiaid.
    - Eglurodd Patterson bod yr unedau wrth gefn yng Nghymru yn cael eu rheoli gan Frigâd 160 y Troedfilwyr, ond nid ydynt yn cael gorchmynion gan y Frigâd. Felly, gall y Frigâd ofyn i unedau wrth gefn Cymru wneud pethau, ond ni all roi gorchymyn iddynt wneud y tasgau hynny.
    - Roedd y Frigâd yn rhoi gorchmynion i ddau fataliwn rheolaidd a dau fataliwn wrth gefn (REIFFLAU 1 a 6 a GWYDDELOD 1 a 2) - maent i gyd y tu allan i Gymru. Mae bataliwn REIFFLAU 1 wedi'i leoli yng Nghas-gwent, ond mae ganddo god post sir Gaerloyw.
- Mae canolfan y Frigâd yn Aberhonddu, lle mae Ysgol Frwydo'r Troedfilwyr hefyd wedi'i lleoli.
- Mae pencadlys y lluoedd wrth gefn wedi'u clystyru ar hyn o bryd yn ne-ddwyrain Cymru, er bod canolfannau hyfforddi ar gyfer y lluoedd wrth gefn ym mwyafrif y canolfannau poblogaeth.
- Roedd sleid yn cynnwys manylion ynghylch ymrwymiadau Brigâd 160 y Troedfilwyr a Phencadlys Cymru (gweithrediadau ac ymarferion), a oedd yn dangos bod "Cymru'n gweithredu ledled y byd":
    - Wcráin
    - Irac
    - Affrica - Ebola
    - Afghanistan
- Mae ymarfer patrolio mwyaf blaenllaw'r byd (Patrôl y Cambrian) yn cael ei gynnal gan y Frigâd yng Nghymru bob mis Hydref. Mae hon wedi bod yn flwyddyn hanesyddol, gyda 126 o batrolau wedi'u cynnal gyda 21 o dimau tramor.
- Yn ogystal, o ran gwaith ymgysylltu mewn perthynas ag amddiffyn, mae yna weithgareddau lefel isel, pŵer meddal yn digwydd drwy'r Balcanau, drwy ddwyrain Ewrop, Cawcasws y De a thrwy Ganol Asia, gan gynnwys darparu cefnogaeth ar gyfer bandiau milwrol a hyfforddiant anturus.
- Mae gwaith cynllunio wrth gefn yn parhau yn y DU mewn perthynas â:
    - Streic posibl mewn perthynas â thanceri tanwydd
    - Streic posibl mewn perthynas â'r Frigâd Dân
    - Streic posibl mewn perthynas â gwasanaethau carchardai
    - Achosion posibl o ddifa bomiau a bygythiadau gan derfysgwyr
- Cyfeiriodd Patterson at y rhaglen ar gyfer ehangu nifer y cadetiaid, a soniodd am y taflenni a ddarparwyd ar y datblygiadau hyn gan Gymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru. Cafodd y taflenni hyn eu darparu i bawb yn y cyfarfod.
- Roedd digon o gynnydd yn cael ei wneud o ran Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- Mae recriwtio ar gyfer y lluoedd wrth gefn yn parhau i fod yn ofyniad cynyddol.
    - Roedd yr ymgyrch ar gyfer recriwtio i'r gwasanaeth sifil yn Stadiwm Dinas Caerdydd yn llwyddiannus.
    - Mae'r broses o adeiladu ar yr ymdrechion a wnaed i ymgysylltu â chyflogwyr at ddibenion cefnogi'r lluoedd wrth gefn yn elfen bwysig o'r darlun hwn.

<u>Cwestiynau gan y Grŵp:</u>
Cadeirydd: Cronfa'r Cyfamod - Beth yw'r gwahaniaethau pwysig?

- Mae'r ceisiadau'n cael eu cyflwyno yn ganolog, cyn cael eu hanfon yn ôl i Gymru i gael eu sgrinio a'u blaenoriaethu. Yn dilyn hynny, maent yn cael eu trosglwyddo i'r grwpiau rhanbarthol; yna, maent yn mynd yn ôl i fyny'r gadwyn gydag argymhellion.

Cadeirydd: A ydym yn cael nifer dda o geisiadau yng Nghymru?

- Ydym. Mae nifer dda, ac mae pobl yn dod yn ymwybodol o sut y mae'r broses yn gweithio.
- Mae'r rhan fwyaf o geisiadau yn dod drwy hyrwyddwyr y lluoedd arfog ac awdurdodau lleol.
    - Cafwyd mewnbwn gan Gomodor Awyr Adrian Williams, a oedd yn eistedd ar Fwrdd y Cyfamod ar gyfer Cymru.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle hwn i dynnu sylw'r Grŵp at y papur briffio a ddarparwyd gan Nick Beard, Prif Weithredwr Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru, a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar rymoedd cadetiaid yng Nghymru.
Darparwyd adborth gan Beard:

- Cafodd y sefydliad groeso cynnes gan y Gweinidog.
- Mae'r Gweinidog yn awyddus i Gymru fod yn rhan o'r rhaglen ar gyfer ehangu nifer y cadetiaid.
- Ar hyn o bryd, maent yn aros i Weinyddiaeth yr Amddiffyn roi adborth i'r Gweinidog/ei staff.
- Rhoddodd y Cadeirydd ychydig o gefndir parthed y pryderon hyn.
- Cadarnhaodd Beard ei bod yn fenter deirochrog o ran y lluoedd.
    - Mae llawer o fanylion i'w penderfynu o hyd ynghylch y dosbarthiad rhwng y tri gwasanaeth.
- Cadarnhaodd Beard y dylai Aelodau'r Cynulliad aros cyn cysylltu ag ysgolion am y datblygiadau cadarnhaol.
    - Bydd £3 miliwn yn dod i Gymru, a bydd hynny'n debygol o effeithio ar 25 o ysgolion.
- Pwysleisiodd Patterson fod angen cynnal trafodaethau pellach ar y manylion a'r effaith y gallai camau o'r fath eu cael ar bencampwyr cyfredol y lluoedd arfog.
- O ran datblygu Lluoedd y Cadetiaid Cyfun mewn ysgolion, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan benaethiaid a'u llywodraethwyr.

Cam gweithredu: Ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi diddordeb yn y ffordd y bydd y mater hwn yn datblygu.

**3) Cyflwyniad gan yr Athro F D Rose, Cydlynydd, Prifysgolion yn Cefnogi Personél sydd wedi'u Clwyfo, sydd wedi'u Hanafu ac sy'n Sâl (UNSWIS)**

(Mae copi o’r cyflwyniad Powerpoint a ddefnyddiwyd ar gyfer yr eitem hon ar gael ar gais.)

- Mae UNSWIS yn rhwydwaith o brifysgolion sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog.
- Eglurodd Rose sut y datblygodd UNSWIS:

    - Deilliodd y syniad hwn o ymweliad ffisiotherapydd sydd wedi'i leoli mewn Prifysgol â Chwrt Headley.
    - Dechreuodd y ffisiotherapydd ofyn am yr hyn y gall y Prifysgolion ei wneud i helpu Cyn-filwyr.
    - Wedi i bobl gael therapi, sicrhau mynediad at hyfforddiant neu brofiad gwaith oedd yr her fawr nesaf.
    - Roedd busnesau—ond nid prifysgolion—eisoes yn ymwneud â'r mathau hyn o brosiectau.
- Yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, siaradwyd â:
    - Threian o'r holl brifysgolion
    - Elusennau'r gwasanaeth
    - Busnesau sydd eisoes yn gweithio gyda chymuned y Lluoedd Arfog
- Roedd y Grŵp Llywio Partneru ynghylch Gyrfaoedd Amddiffyn yn gefnogol o'r syniad
- Mae gan brifysgolion ôl-troed ledled y DU
- Mae prifysgolion yn fusnesau sydd werth miliynau o bunnoedd ac mae ganddynt seilwaith enfawr
    - Mae llawer o gyflogaeth yn gysylltiedig ag adrannau academaidd, yn ogystal ag adnoddau
- Beth y mae UNSWIS yn ei wneud?
    - Sesiynau blasu: Beth sy'n digwydd mewn prifysgol? Agor llygaid pobl, y tu hwnt i ystrydebau'r gorffennol.
    - Sesiwn gynghori: Siarad ag arbenigwyr pwnc. 'Sut ydw i'n teithio o A i B o ran fy ngyrfa?
    - Cysgodi a phrofiad gwaith - yn aml gydag aelod o staff (sydd hefyd yn gyn-filwr) sy'n chwarae rôl mentor.
- Mae prifysgolion hefyd wedi cynnal teithiau/ymweliadau â grwpiau o tua 15 o bobl ar y tro. Mae'n well gan rai pobl y math hwn o drefniant.
- Mae gwaith wedi'i wneud gyda Chynghorwyr Cyflogaeth Arbenigol, ond roedd diffyg galw yn eu plith.
    - Roedd yna amrywiaeth ranbarthol ond, yn gyffredinol, roedd nifer y bobl a fanteisiodd yn isel.
    - Felly, cafodd y cynllun ei ymestyn i gynnwys aelodau o deuluoedd y cyn-filwyr.
- Mae UNSWIS yn cael atgyfeiriadau gan nifer o elusennau milwrol amlwg.
- Y weithdrefn ar gyfer sefydlu lleoliadau:
    - Galwad ffôn
    - Cysylltu â'r brifysgol
    - Cyfarfod gyda'r person a'r partïon cysylltiedig
    - Beth fyddai'r peth mwyaf defnyddiol iddynt?
    - A yw'r cais i'r brifysgol yn rhesymol?
    - Mae'r prosiect yn wahanol i brosiectau tebyg mewn cwmnïau mawr/yn y sector cyhoeddus gan ei fod wedi ei deilwra'n benodol iawn.
- Hyd yma, mae 150 o geisiadau wedi dod i law; mae 50% ohonynt wedi arwain at brofiadau go iawn.
- Maent yn cael adborth gan dreian o'r bobl a gafodd gymorth.
- Nid yw UNSWIS yn elusen
- Yr her ar hyn o bryd yw nodi dyfodol cynaliadwy i UNSWIS

Cwestiynau/sylwadau gan y Grŵp:
Mark Axler: Ers sefydlu Cyfamod y Lluoedd Arfog ym mis Mai 2011, pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud o ran y gwaith hanfodol yr ydych chi'n ei wneud?

- Nid yw wedi gwneud gwahaniaeth mawr, ac ni wnaethom gais am grant gan y Cyfamod Cymunedol.

Patterson: A oes lle i ehangu ymhellach? Er enghraifft, gweithio gyda milwyr wrth gefn?

- Byddai hynny'n golygu y byddai'r ymarfer yn fwy ac y byddai angen ei drefnu mewn modd gwahanol, o bosibl.

Patterson: Bydd yn siarad gyda'i dîm ynglŷn â hyrwyddo UNSWIS.
Yn anffodus, nodwyd mai dim ond dwy brifysgol yng Nghymru sy'n cymryd rhan.

Cam gweithredu: Ysgrifennu at holl brifysgolion Cymru am UNSWIS.

Angela Burns AC: Bydd yn cyfarfod â rhai prifysgolion maes o law (gan gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd yr wythnos nesaf) a bydd yn sôn am UNSWIS.

4) **Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

- Ail-ethol Darren Millar yn Gadeirydd - Gwnaed y cynnig gan Angela Burns AC, a chytunodd y Grŵp arno
- Ail-ethol Mia Rees yn Ysgrifennydd - Gwnaed y cynnig gan Angela Burns AC, a chytunodd y Grŵp arno

5) **Rhaglun a Gwybodaeth am Brosiect Allgymorth Ffilm y Cyfamod Cymunedol**

Mark Axler, Cyfarwyddwr MAON ac Arweinydd Prosiect Allgymorth Ffilm y Cyfamod Cymunedol
(Mae copïau o raglun y prosiect a nodiadau siarad Axler ar gael ar gais)

- Perfformiad cyntaf rhaglun y Prosiect yng Nghymru
- Cafodd ei ariannu'n llawn gan gynllun grant y Cyfamod Cymunedol
- Cefndir Axler:
    - Wedi gweithio yn y Fyddin ers dros 20 mlynedd.
    - Wedi sefydlu MAON 10 mlynedd yn ôl i geisio canfod atebion arloesol i'r problemau heriol sy'n effeithio ar y Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfnod pontio ac integreiddio Cymuned y Lluoedd Arfog o ran Addysg, Iechyd, Cyflogaeth, Iechyd Meddwl, Tai a Lles.
    - Cafodd y prosiect ei ysbrydoli gan ymdeimlad Mark mai un o'r ffyrdd y gall ymrwymiad arwain at weithredu yw drwy alluogi pobl sy'n helpu newid bywydau er gwell i ysbrydoli eraill i wneud hynny drwy rannu eu straeon.
- Cafodd Prosiect Allgymorth Ffilm y Cyfamod Cymunedol ei gymeradwyo er mwyn cyfrannu at amcanion cyffredinol y Cyfamod Cymunedol drwy wneud ffilmiau cadarnhaol am effaith a chanlyniadau y Cyfamod Cymunedol a'r Cynllun Grant, ac i ryddhau'r ffilmiau drwy Raglen Allgymorth Cymunedol ar gyfer Ymgysylltu ynghylch Gwybodaeth Addysg ar draws y DU.

- Mae rhaglun y Prosiect - *Y Cyfamod Cymunedol ar Waith* - yn dathlu'r canlyniadau cadarnhaol sy'n cael eu cyflawni ac yn ein hatgoffa bod mwy y gallwn i gyd ei wneud gyda'n gilydd.
- Canlyniadau'r prosiect
    - Ehangu dealltwriaeth, codi ymwybyddiaeth a chynyddu'r gefnogaeth ar gyfer y Cyfamod Cymunedol.
    - Annog y Genedl, y Gymdeithas Amddiffyn a Chymdeithas Sifil i ymrwymo i'w gefnogi a'i anrhydeddu.
    - Dangos a rhannu ffyrdd gweledol o ddysgu gwersi ymarferol gan eraill.
- Diolch i bawb am bopeth yr ydych yn ei wneud i gefnogi pobl yn ein cymunedau sy'n gwasanaethu, neu wedi gwasanaethu, ynghyd ag aelodau o'u teuluoedd.

<u>Cwestiynau/sylwadau gan y Grŵp:</u>
Cadeirydd: Mae angen rhagor o ymgysylltu â gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r cyfamod, er enghraifft, y GIG
Patterson: Mae ymgysylltu â chyn-filwyr yn y carchar yn gynllun da
Williams: Heddluoedd - angen mwy o waith o hyd
Cadeirydd: Mae gan Fyrddau Iechyd Bencampwyr ar gyfer Cyn-filwyr, ond beth y maent yn ei wneud?

Cam gweithredu: Gwahodd Peter Higson i'r cyfarfod nesaf i drafod ymateb GIG Cymru i'r Cyfamod.

**6) Trafodaeth: Ymweliadau ag ysgolion Milwrol - Adborth gan y Cadeirydd ynghylch y ddadl**

Nododd Cadeirydd fod y ddeiseb a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Pwyllgor Deisebau yn galw am waharddiad llwyr ar y Lluoedd Arfog o ran recriwtio mewn ysgolion.
Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth fel a ganlyn:

- Roedd y Dirprwy Weinidog yn cefnogi'r ffaith y bydd y Lluoedd Arfog yn parhau i ymweld ag ysgolion.
- Lleisiodd aelodau Cynllun Lluoedd Arfog y Cynulliad Cenedlaethol eu cefnogaeth, ac roedd hynny'n wych.
    - Nododd y Cadeirydd mai dim ond y Llynges sydd ar ôl o ran cynnal ymweliad gan Aelod.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Lluoedd a oedd yn bwriadu ymweld ag ysgolion wahodd Aelodau'r Cynulliad i ymuno â nhw er mwyn dangos yr hyn y maent yn ei wneud.

**7) Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fusnes arall. Nid oedd unrhyw fusnes arall.**

Daeth y cyfarfod i ben am 13:25.